



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

**13<sup>eg</sup> Gorffennaf 2018**

**9:00 am - 11:45 pm**

**Optic, Llanelwy**

Yn bresennol:	Cyng Gareth Roberts (cadeirydd), Bethan Jones Edwards, Morwena Edwards, Jane Davies (ar ran Neil Ayling), Phil Gilroy (ar ran Nicola Stubbins), Charlotte Walton, Alwyn Jones (ar ran Caroline Turner), Cllr Joan Lowe, Teresa Owen, Lyn Meadows, Richard Debicki, Wendy Jones, Helen MacArthur, Cyng Bobby Feeley, Lynda Colwell, Clive Naden (ar ran Mary Wimbury),
Ymddiheuriadau:	Jenny Williams, Neil Ayling, Nicola Stubbins, Caroline Turner, Clare Field, Mary Wimbury, Cyng Llinos Medi Huws, Dave Worrall, Cyng Christine Jones, Richard Weigh, Andrew Long, Cyng Liz Roberts, Vin West, Debbie Shaffer
Hefyd yn Bresennol:	Andrea Hughes, Cyfarwyddwr Nyrzio Ardal ar gyfer yr Ardal Ganolog – eitem rhaglen 3

Eitem		Camau Gweithredu
1.	<p>Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau</p> <p>Croesawodd y Cyngorydd Roberts bawb i'r cyfarfod, cyflwynwyd pawb a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.</p>	
2.	<p>Cofnodion a champau gweithredu o'r cyfarfodydd diwethaf:</p> <p>Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 22 Mehefin fel rhai cywir. Materion yn codi: Bydd BJE yn parhau i fynd ar ôl ymateb manwl ynghylch Cartrefi Cymunedol Cymru ac ymgysylltu â TO.</p> <p>Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod 5 Gorffennaf ar ffurf drafft.</p>	
3.	<p><u>Ffrwd Waith Blaenoriaeth RPB – Plant gydag Anghenion Cymhleth</u></p> <p>Daeth AH i ddarparu diweddariad ar y Ffrwd Waith Plant yn absenoldeb Bethan Jones. Mae'r chwe blaenoriaeth a nodwyd i gefnogi'r rhaglen Plant yn parhau i gael ei ddatblygu.</p>	

	<p>Mae'r diffiniad dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn trafod anghenion cymhleth oherwydd anabledau a salwch. Mae'r Grŵp Trawsnewid Plant (GTP) wedi ymgeisio i ganfod lefel y manylder i gytuno ar ddealltwriaeth o'r diffiniad. Bydd cadarnhad cytundeb o'r diffiniad yn sicrhau bod y ffrwd waith yn datblygu.</p> <p>Nododd ME, ar ôl darllen y diweddariad a ddarparwyd y byddai'n disgwyl bod rhai o'r ardaloedd y cyfeiriwyd atynt yn cael eu cymryd ymlaen yn is-ranbarthol a'u trafod mewn partneriaeth rhwng rheolwyr gofal cymdeithasol ac iechyd yn lleol. Gofynnodd ME a allai'r grŵp adolygu'r gwaith a nodwyd a bod yn gliriach ar beth yw mater rhanbarthol a beth y gellir mynd i'r afael ag o yn fwy lleol. Mynegodd ME bryderon gan nad yw'r ddogfen yn crybwyll gwaith lleoliad preswyl mewn perthynas â phlant gydag anghenion cymhleth. Mae gwaith lleoliadau plant yn parhau yn rhanbarthol ac yn cael eu harwain gan Benaethiaid Plant yn gweithio ar y cyd gyda Thîm Comisiynu Rhanbarthol a phartneriaid ehangach.</p> <p>Cadarnhaodd AR y bydd y cynllun gweithredu trosfwaol yn cael ei ddarparu ar wahanol gyfraddau mewn perthynas i ofynion pob ardal. Mae'r diweddariadau yn yr adroddiad yn amlygu'r gwaith sy'n digwydd yn y Dwyrain a fydd yn waith wahanol i'r hyn sy'n digwydd yn y Gorllewin.</p> <p>Awgrymodd BJE bod y diffiniad fel y cytunwyd y grŵp cenedlaethol dan y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn cael ei rannu gyda'r GTP sy'n debyg i'r diffiniad gwreiddiol a gynigwyd gan Benaethiaid Plant GC.</p> <p>Roedd TO yn cytuno gyda'r materion llywodraethol a'r angen i sicrhau bod plant ymhob ardal yn cael mynediad i'r gwasanaeth priodol. Bydd yn bwysig i weithio'n lleol, gyda'r angen i egluro gweithgareddau lleol a chynnydd a'u diweddarau'n rhanbarthol.</p> <p>Mae TO yn mynychu Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus y Gorllewin (BGC) ac er bod gan pob BGC batrwm gwaith gwahanol, mae gwaith ar raglen y Plant yn datblygu ymhob ardal, ond bydd y ffocws ar y gwaith yn wahanol. Bydd diagram yn dangos y llywodraethu o gymorth.</p>	<p>BJE i rannu'r diffiniad gydag AH.</p> <p>AH i greu siart perthynas a'i anfon ymlaen at BJE.</p>
<p>4.</p>	<p><u>Ffrwd waith blaenoriaeth y BPRh – Pobl Hŷn gydag anghenion cymhleth megis dementia</u></p> <p>Mae Pobl Hŷn yn faes a nodwyd o fewn y Ddeddf mewn perthynas â'r angen i ddatblygu gwasanaethau integredig ar gyfer pobl hŷn ag anghenion cymhleth.</p> <p>Mae'r ffrwd waith hon yn brysur iawn, oherwydd y llwyth gwaith sydd ar y gweill o fewn gwasanaethau Pobl Hŷn, yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Roedd arweinwyr y ffrwd waith yn ofalus bod unrhyw waith ychwanegol yn ychwanegu gwerth i'r gwasanaeth ac roeddent yn osgoi dyblygu gwaith oedd yn bodoli'n barod.</p> <p>Yn ystod gweithdy a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2017 a hwyluswyd gan Keith Moultrie (awdur y Adolygiad Seneddol) nodwyd dwy weithred i ychwanegu gwerth a hwyluso'r gwaith; rhannu arfer da, a darn o waith mwy cymhleth i roi cymorth i'r ardal i newid y diwylliant.</p>	

	<p>Defnyddiwyd y Grŵp Trawsnewid Pobl Hŷn, a oedd wedi ei sefydlu eisoes o fewn yr Uned Reoli Sylfaenol fel grŵp llywio'r gweithrediadau uchod a chyfunwyd dogfen wreiddiol i greu fframwaith Pobl Hŷn. Nid yw ME fodd bynnag yn credu bod y fframwaith hwn yn bodloni anghenion yr holl bartneriaid gan ei fod wedi ei ysgrifennu o safbwynt y Bwrdd Iechyd (BI). Tra bo'n cael ei werthfawrogi bod angen ar y BI am ddogfen fewnol, bydd angen datblygu dogfen bellach sy'n ystyried ystod eang o wasanaethau gan wahanol bartneriaid.</p> <p>Fel cymorth gyda'r ail weithred, cysylltwyd gyda'r Athro John Parkinson, Pennaeth Seicoleg ym Mhrifysgol Bangor i dreialu ymyrraeth ar ddatblygu diwylliant staff.</p> <p>Adroddodd ME bod isranbarthau wedi cynnig mewnbwn drwy adrodd yn ôl ar lwyddiannau h.y. 5 niwrnod mewn ystafell Dwyrain, Gorllewin a'r Canolbarth, a Gofal yn Nes at Adref. Nodwyd hefyd nad yw nawdd wedi cael ei ryddhau i ddiogelu capasiti i ddod â'r ffrwd waith hon at ei gilydd.</p> <p>Roedd AJ yn teimlo y dylid annog y darn o waith gyda Bangor fel newid mewn diwylliant a fydd yn hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth ar draws y system i sicrhau ymddygiad iachach at risg yn hytrach na diwylliant yn erbyn risg.</p> <p>Mae LC yn teimlo nad yw'r Trydydd Sector wedi cael ei gynnwys o fewn y darn hwn o waith sydd wedi ei wneud hyd yma. Roedd ME yn tybio bod pob sector yn cael gwahoddiad i gymryd rhan yn y gweithdai 5 niwrnod mewn ystafell a bydd yn sicrhau bod y cyswllt yn cael ei amlygu yn y dyfodol.</p> <p>Nododd TO bod angen i asiantaethau gymryd rhan oherwydd bod cyfle euraidd yma i rannu arfer da o'r Trydydd Sector.</p> <p>Mae TO yn deall cymhlethdod y gwaith yn y Gorllewin, y Dwyrain a'r Canolbarth. Mae cyfle yma i weithio fel rhanbarth ac unwaith bydd y drefn llywodraethu wedi'i datrys, bydd y gweddill yn dilyn. Mae'r BI yn awyddus i gydweithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r ffrwd waith. Mae'r BI hefyd wedi cysylltu gyda John Parkinson ac yn cymeradwyo'r gwaith i weithio gyda Phrifysgol Bangor.</p> <p>Gofynnodd ME beth yw'r gofynion, a hefyd am eglurhad ar y ffrwd waith hon. Llywodraethu – trafod gyda phartneriaid i sicrhau bod llywodraethu'n glir. Symud ymlaen gyda'r ffrwd waith hon gan dderbyn y byddai'n cyfuno gyda gwaith parhaus y Adolygiad Seneddol (AS).</p> <p>Mae TO yn nodi dau ddarn o waith; llywodraethu a rhannu arfer da a'r gwaith datblygiadol gyda'r Brifysgol.</p>	
5.	<p><u>Panel Dinasyddion</u></p> <p>Cadarnhaodd WJ bod y panel wedi dangos cynnydd da eleni, gyda 106 o aelodau ar draws Gogledd Cymru, ar hyn o bryd. Sefydlwyd gwefan newydd sy'n galluogi aelodau i leoli gwybodaeth ar ddeddfwriaethau</p>	

	<p>allweddol, ymgynghoriadau lleol ac mae deunydd newydd wedi'i gynhyrchu i hyrwyddo'r Panel.</p> <p>Cadarnhaodd WJ bod ffocws y gwaith yn parhau i ganolbwyntio ar Farn y Dinesydd gyda'r Panel yn targedu ardaloedd gyda llai o gofrestrïadau.</p> <p>Nodwydd y byddai gwybod y nifer manwl o ddinasyddion a rannwyd i bob Awdurdod Lleol yn ddefnyddiol i'r partneriaid sy'n noddî'r gwasanaeth.</p> <p>Mae WJ yn pryderu am yr heriau sy'n wynebu'r Panel i drefnu gweithgareddau ar draws y rhanbarth ar gyllideb gyfyngedig, gyda gweithgareddau wedi'u trefnu yn bennaf o fewn un ardal benodol.</p> <p>Esboniodd WJ y gofynnwyd am adborth ar bob achlysur pan mae ymgynghoriadau'n cael eu derbyn i fynd ger bron y Panel. Adroddwyd, yn CBSC, derbyniwyd 70% o'r adborth i ymgynghoriadau gan y Panel Dinasyddion.</p> <p>Mae Panel Dinasyddion o fewn pob rhanbarth yng Nghymru, fodd bynnag, maent yn gweithredu'n wahanol ac yn cynnwys unigolion gwahanol.</p>	<p>Darparu nifer o aelodau panel ar gyfer pob ardal Awdurdod Lleol - WJ</p>
<p>6.</p>	<p><u>Cynllun Dementia ICF</u></p> <p>Mae dwy gronfa ar gael:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cais Rhaglen Rhanbarthol o £1.197M</li> <li>- Nawdd Cymru Gyfan o £4M</li> </ul> <p>Bydd nawdd Cymru Gyfan yn cael ei gadw'n genedlaethol gan Llywodraeth Cymru a bydd disgwyl i ranbarthau ddatblygu cynllun ychwanegol i wneud cais am y nawdd i gefnogi prosiectau neu wasanaethau ar gyfer prosiectau peilot.</p> <p>Yn ystod gweithdy diweddar, fe nodwyd, tra bo angen darparu cynllun dementia cenedlaethol, nid oes trosolwg rhanbarthol o wasanaethau dementia presennol ar draws y rhanbarth. Cynigir felly bod y rhanbarth yn gwneud cais am nawdd i ymgymryd â'r gwaith hwn o gronfa nawdd Cymru Gyfan. Mewn ymateb i sut y dyrannwyd y nawdd, esboniwyd bod hyn yn seiliedig ar amcangyfrif cost capasiti o fewn y tri ardal, yn seiliedig ar raddfa gyfartalog rheolwr prosiect, a nawdd i ofyn am gyngor arbenigol ynghylch arfer orau, a chyfleoedd digidol. Bydd darparu'r mecanwaith penodol yn cael ei gadarnhau os yw'r cynnig am nawdd yn llwyddiannus. Cadarnhaodd BJE bod nawdd Dementia ICF wedi defnyddio'r un llwybr â holl arian yr ICF, ei greu a chytuno arno'n lleol, a'i lofnodi gan y grŵp Arweinyddiaeth, a'i arnodi gan y RPB heddiw. Mae Cyfarwyddwyr GC a Cyfarwyddwyr Ardal y BI wedi'u cyfeirio ar y cynlluniau sydd hefyd wedi cael eu rhannu gyda'r Grŵp Arweinyddiaeth.</p> <p>Roedd Aelodau BPRhGC yn cytuno i gymeradwyo'r Cynllun Dementia ICF.</p>	
<p>7.</p>	<p><u>Adolygiad Seneddol (AS)</u></p>	

Adroddodd y Cyngorydd GR ar gyfarfod 09.07.2018 o Arweinwyr ALI, Arweinwyr Cabinet ALI ar Gwasanaethau Cymdeithasol a Prif Swyddog Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyda Vaughan Gething, Ysgrifennydd Y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Huw Irranca-Davies, Y Gweinidog dros Blant, Pobl Hŷn a Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd yn siomedig fodd bynnag i nodi mai dim ond dau Arweinydd ALI oedd yn bresennol.

Adroddodd y Cyngorydd JL a'r Cyngorydd BF gyfarfod cadarnhaol oedd yn trafod yr AS. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog ganllawiau clir o ran y cynnydd y disgwylir i'w weld yn y rhanbarth a thrafodwyd y Gronfa Trawsnewid fel rhaglen dreigl, i'w ddefnyddio'n bennaf er pwrpas trawsnewid, gan ddilyn modelau a heriau newydd. Caiff y mater hwn ei drafod dros yr haf a disgwylir y dosbarthiad yn ystod yr hydref. Roedd yn wych cael clywed y byddai'r £20B a ddarparwyd i GIG, hefyd yn cynnwys Gofal Cymdeithasol pan y caiff ei ddyrannu yng Nghymru.

Gofynnodd RD am y terfyn amser mewn perthynas â'r cais ac awgrymodd bod y Bwrdd yn dyrannu amser digonol i ddatblygu a llunio'r cais.

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am y cynlluniau cyntaf ym mis Medi, ac mae disgwyl iddynt gynnwys yr holl gamau gweithredu yn ogystal â syniadau trawsnewid ar gyfer y rhanbarthau sydd angen nawdd.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gadw'r ddeialog ar agor a chadarnhaodd BJE bod y rhanbarth eisoes yn rhagweithiol gyda chyfarfodydd rheolaidd Grŵp Tasg a Gorffen a byddant yn cael eu trefnu'n wythnosol dros yr haf.

Nododd BJE bydd craidd y gwaith integreiddio yn canolbwyntio ar glystyrau a gweithio mewn partneriaeth. Deall y clystyrau fydd craidd y gwaith, gan nodi arweinyddion clwstwr i egluro'r gwaith sy'n digwydd, sut y gellir datblygu clystyrau a bydd cymorth y bwrdd iechyd yn hanfodol ar gyfer y darn hwn o waith.

Hysbysodd TO bod 14 o glystyrau yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd, i gyd yn amrywio yn nhermau datblygiad a heriau. TO sy'n gyfrifol am y waith clwstwr ar hyn o bryd, nes bod swydd Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol yn cael ei llenwi. Bydd TO yn diweddarau'r Grŵp Tasg a Gorffen ar waith y clystyrau.

Ailadroddodd BJE bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i drawsnewid gwasanaethau, yn gyflym, a bydd angen i'r trawsnewid hwn fod tu hwnt i'r lefel sy'n digwydd rŵan. Mae'r amserlen ar gyfer cwblhau'r cynllun yn sialens, fodd bynnag mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio mai'r BPRh yng Nghymru fydd yn bennaf gyfrifol am y gwaith hwn.

#### Grŵp Tasg a Gorffen

Mae'r grŵp dilyn tri phrif faes:

1. Gofal Di-dor
2. Gweithlu Priodol
3. Technoleg Ddigidol (i roi cymorth i bobl sy'n aros yn y gymuned)

TO i ddiweddarau'r grŵp Tasg a Gorffen ynghylch clystyrau

	<p>Mae gwaith yn parhau ac mae'r grŵp yn datblygu nifer o gamau gweithredu a gweithgareddau i sicrhau bod cynllun yn cael ei ddatblygu. Mae'r Athro Keith Moultrie wedi cytuno i arwain ar lywodraethu'r ffrwd waith a bydd yn cynghori ar ddatblygiad y Cynllun.</p> <p>Bydd Bwrdd Gweithlu GC yn ymgymryd â chymau gweithredu o fewn y cynllun yn ymwneud a'r gweithlu. Bydd gofyn am waith newid diwylliant hefyd, yn debyg i hynny y cafodd ei grybwyll yn y ffrwd waith Pobl Hŷn.</p> <p>Holodd RD sut y gall bawb ddylanwadu ar y gwaith gan awgrymu cynnwys gwasanaethau Iechyd Meddwl yn y Cynllun a bod Heddlu Gogledd Cymru yn cael cynrychiolaeth ar y grŵp Tasg a Gorffen.</p> <p>Dywedodd ME efallai y bydd grwpiau yn gweithredu eisoes yn y rhanbarth a allai ymgymryd â rhai o'r camau gweithredu o'r Cynllun e.e. mae grŵp sy'n cyfarfod sy'n edrych ar asedau ac rydym yn gwneud cysylltiadau lle bo hynny'n briodol.</p> <p>Dywedodd BF y dylai fod yn ymarferol nodi maes gwasanaeth ymyrraeth/atal yn gynnwys a allai gael ei uwchraddio a'i gyflwyno'n gyflym.</p> <p>Adroddodd CW am sedd Iechyd a Gofal Cymdeithasol ychwanegol sydd wedi cael ei gymeradwyo i eistedd ar y Bwrdd Sgiliau Rhanbarthol yn dilyn cyfarfod a gynhaliwyd gyda BJE ac Iwan Thomas. Mae Cadeirydd y Bwrdd Sgiliau Rhanbarthol hefyd eisiau sedd gyfatebol ar Fwrdd Gweithlu Gogledd Cymru.</p> <p>Nododd ME efallai y bydd cyfle i weithio ar y cyd gyda Chanolfan Bedwyr (Adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor) i ddatblygu geirfa ddwyieithog ar gyfer systemau digidol TG penodol. Mi fyddai hyn yn galluogi arferion o weithio ar y cyd a rhannu nodiadau achos rhwng ALL a GIG, un o'r rhwystrau presennol yw cofnodi nodiadau yn Gymraeg.</p> <p>Noddodd BJE bod materion iaith wedi creu rhwystr ar gyfer DEWIS Cymru ac y byddai datrys materion y Gymraeg o fewn datrysiadau digidol er budd nifer o wasanaethau.</p>	<p>BJE i gyfarfod â CW ynghylch gweithred NWWB PR.</p>
<p>8.</p>	<p><u>Unrhyw Fater Arall</u></p> <p>Adroddodd ME bod Panel Cyfoedion ar gyfer cynrychiolwyr Unigol a Gofalwyr ar y NWRPB wedi cael ei cynnal ac fe gynigwyd seddi i Jennie Lewis a Peter Williams ar y Bwrdd. Bydd y ddau gynrychiolydd yn ymuno'r Bwrdd ym mis Medi. Aelodau'r Panel Cyfoedion oedd ME, JL a DW.</p> <p>Ni dderbyniwyd ceisiadau am ddatganiadau o ddiddordeb y Defnyddwyr Gwasanaeth a bydd y cais yn cael ei rannu gyda datganiadau o ddiddordeb y Trydydd Sector yn y man. Mae croeso i aelodau presennol wneud cais eto.</p>	<p>Anfon gwahoddiad au calendr a'u cynnwys ar y rhestr cylchredeg grŵp</p>
	<p><u>Dyddiad y cyfarfod nesaf:</u> Dydd Gwener 7 Medi am 9.00am</p>	